



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r ffioedd ynghylch cyffuriau a chyfarpar a gyflenwir i gleifion sydd wedi'u cofrestru gydag Ymarferwyr Cyffredinol (YC) yng Nghymru neu sydd wedi'u cofrestru gydag YC yn Lloegr ond eu bod yn dal cardiau hawl dilys, pan gyflenwir cyffuriau a chyfarpar yn unol â'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer esemptiadau rhag talu ffioedd am gyffuriau a chyfarpar sy'n gymwys i gleifion heblaw'r rheini sydd wedi'u cofrestru gydag YC yng Nghymru neu wedi'u cofrestru gydag YC yn Lloegr ond sy'n dal cardiau hawl dilys ac ar gyfer cleifion o'r fath i wneud cais am dystysgrifau esemptio. gGwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyroddi cardiau hawl sydd yn galluogi preswylwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru gyda YC yn Lloegr i gael cyffuriau a chyfarpar am ddim pan fo'r un cyffuriau a chyfarpar yn cael eu gweinyddu yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu esemptiad rhag ffioedd ar gyfer carcharorion.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn o dan Reol Sefydlog 11.7.

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn o dan Reol Sefydlog 11.7(v):-

Yn rheoliad 2 (dehongli):

- Yn y diffiniad o "swp-ddyroddiad" [batch issue], mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at ffurflen

sy'n cael ei dyroddi gan 'repeatable prescriber'; mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at 'ragnodwr' [prescriber].

- Mae testun Saesneg y diffiniad o "equivalent repeatable prescription" yn cynnwys y geiriau "equivalent repeat dispensing services to those provided in Wales"; mae'r testun Cymraeg yn hepgor y geiriau sy'n cyfateb i "equivalent to those provided in Wales".
- Mae'r diffiniad o "carchar" yn cynnwys diffiniad o "carcharor". Diffinnir "carcharor" fel person sy'n cael gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllol neu nysrio a ddarperir mewn ffyrdd a nodir yn y ddarpariaeth. Mae'r testun Saesneg yn awgrymu y gall gwasanaethau o'r fath, ymhlith rhai eraill, gael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Lleol neu o dan drefniadau a wneir gan Fwrdd Iechyd Lleol a bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud y tu allan i delerau adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988; mae'r testun Cymraeg yn awgrymu y gellir gwneud trefniadau ar gyfer hyn o dan a'r tu allan i adran 7(2). Yn ogystal, mae'r testun Cymraeg yn defnyddio "a thrwy" sy'n awgrymu "through"; byddai "gan" yn air mwy priodol wrth gyfeirio at y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol.
- Ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "cofrestr berthnasol", mae'r testun Cymraeg yn hepgor "1976" yn y cyfeiriad at Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon).
- Yn y testun Saesneg, mae'r diffiniad o "Welsh prescription form" yn cynnwys diffiniad o "a Welsh NHS Trust". Yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniad o "un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru" yn eitem ar wahân. O gofio bod y testun Saesneg yn nodi bod y diffiniad o "Welsh NHS Trust" [un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru] "for the purposes of this definition", sef y diffiniad o "Welsh prescription form" [ffurflen bresgripsiwn Gymreig] credir y dylai'r testun Cymraeg gynnwys darpariaeth gyfatebol.
- Yn rheoliad 2(2) ym mharagraff (b) cyfeirir at "hosanau elastig a theits". Mae "hosan elastig" yn derm diffiniedig ac nid yw'n cynnwys 'teits'. Mae darpariaethau eraill y Rheoliadau e.e. rheoliad 3(2)(a) a (5)(a) a 4(2)(a) yn cyfeirio at hosanau elastig ond nid at deits. Mae'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau wedi cynghori y dylid dileu'r cyfeiriad at 'a theits'.

Yn rheoliad 3:

- Mae paragraff (2) yn croesgyfeirio at "ym mharagraff (1) (a) a (b) uchod". Mae hyn yn awgrymu bod yn rhaid bodloni'r amgylchiadau a nodir yn (a) a (b) ond ym mharagraff 1, mae is-baragraffau (a) a (b) wedi'u drafftio mewn ffordd amgen. Mae pwynt tebyg yn codi ym mharagraff (5).
- Yn ogystal, ym mharagraff (2) dylai'r croesgyfeiriad at baragraff (6) fod at baragraff (3).
- Ym mharagraff (7) mae'r gair "form" ar goll ar ôl "single equivalent prescription" yn y testun Saesneg.

Yn rheoliad 4:

- Ym mharagraff (2), mae'r gwall a nodwyd mewn cysylltiad â rheoliad 3(2) yn codi fan hyn hefyd. Yn ogystal, mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at baragraff (1) gan hepgor cyfeiriadau at is-baragraffau (a) a (b).
- Ym mharagraff (5), dylid dileu'r gair "this" (lle y bo'n ymddangos cyn "paragraph (2)") yn y testun Saesneg.

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio'r gair "fferyllydd" ar gyfer "chemist" a "pharmacist". Mae hyn yn dilyn terminoleg gyffredin a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth y Cynulliad a lle y defnyddir y term "pharmacist" yn benodol o fewn y diffiniad o "relevant register" [cofrestr berthnasol], mae'n amlwg o'r cyd-destun bod y term "pharmacist" yn cyfeirio at berson a gafodd ei gofrestru yn dilyn Deddf Fferylliaeth 1954. Yn cyfateb i hynny, lle y defnyddir y term "fferyllydd" o fewn y diffiniad hwnnw, golyga fferyllydd sydd wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf honno.

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau ynghylch y pwyntiau fformadu sy'n addas i'w cywiro wrth eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau lle y mae'r rhifau/llythrennau wedi mynd o chwith o ganlyniad i drafferthion â'r feddalwedd drafftio.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

16 Ionawr 2007